

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 7 Mai 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gemau'r Gymanwlad

C11 Eleanor Burnham: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar ba drafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch cynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghaerdydd? (OAQ17277)

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Ar hyn o bryd nid oes cynigion i gynnal Gemau'r Gymanwlad yng Nghaerdydd, ac felly nid oes trafodaethau.

Aelodaeth Lawn o'r Undeb Ewropeaidd

C12 Phil Williams: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch gallu cenhedloedd y DU i wneud cais, fel gwledydd unigol, am aelodaeth lawn o'r UE? (OAQ17278)

Prif Weinidog Cymru: Dim. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi'i threfnu, drwy gytundebau, yn gymuned o wladwriaethau sofran annibynnol.

Denu Busnesau a Chwmnïau i Ogledd Cymru

C13 Gareth Jones: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar sut y mae'r Llywodraeth yn denu busnesau a chwmnïau i ogledd Cymru? (OAQ17273) [W]

Prif Weinidog Cymru: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i greu hinsawdd sy'n caniatáu i fusnesau ledled Cymru ffynnu. Mae Llywodraeth y Cynulliad a phartneriaid Tîm Cymru yn cynnig cymorth cynhwysfawr i fusnesau. Yr ydym yn ceisio gwella'r gwasanaethau a gynigir gennym yn gyson, er enghraifft, ychwanegwyd grant buddsoddi'r Cynulliad a lansiwyd yn ddiweddar, sydd ar gael i fusnesau bach a chanolig eu maint ledled Cymru. Mae rhan helaeth iawn o'r Gogledd yn gallu elwa ar statws haen 1 ardal a gynorthwyr, ac mae gan Lywodraeth y Cynulliad swyddfa ym Mae Colwyn i hybu mewnfuddsoddi a buddsoddiadau mewn busnesau cynhenid.

Ymrwymadau a Roddwyd yn 'Cynllun i Gymru 2001'

C14 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff Prif Weinidog Cymru ddatganiad ar y cynnydd sydd wedi'i wneud o ran cyflawni'r ymrwymadau a roddwyd yn nogfen strategol 'Cynllun i Gymru 2001'? (OAQ17270)

Prif Weinidog Cymru: Yr ydym yn bwrw ymlaen yn dda at wireddu'r ymrwymadau a ddisgrifir yn 'Cynllun i Gymru 2001'. Rhoddaf adroddiad ffurfiol eto yn fy adroddiad blynyddol ym mis Hydref.

Ffyniant Hirdymor i'r Rhondda

C15 Geraint Davies: Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn cydlynu polisïau'r Cynulliad er mwyn sicrhau ffyniant hirdymor i'r Rhondda? (OAQ17249)

Prif Weinidog Cymru: Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro a gwerthuso effeithiau ei rhaglenni i gyd i sicrhau eu bod yn dwyn ffrwyth yn ôl y bwriad o ran gwella gwasanaethau ac amgylchiadau holl bobl Cymru, gan gynnwys y rhai yn y Rhondda.

Er enghraifft, cyfrannodd canlyniadau'r rhaglen Pobl mewn Cymunedau at ddatblygu rhaglenni'r 100 o ardaloedd Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, y mae 17 ohonynt yn Rhondda Cynon Taf, ac mae strategaeth monitro a gwerthuso wrthi'n cael ei datblygu.